Cylchlythyr Ffes 3:
Tachwedd 2021

Dyddiadau Pwysig:

Dyddiad:	Gweithgaredd:
19/11/21	Diwrnod Plant mewn angen
22/11/21	Wythnos Ffug Arholiadau Blwyddyn 10
29/11/21	Wythnos Ffug Arholiadau Blwyddyn 11
30/11/21	Gweithdy Creadigol (Only Boys Aloud, Pontio ac Opera Cymru - Blwyddyn 9)
1/12/21	Digwyddiad Seren (grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 9)
10/12/21	Diwrnod Siwmper Nadolig
14/12/21 + 15/12/21	Asesiadau Llafar Unigol Cymraeg (Blwyddyn 10)
21/12/21	Cinio Nadolig
23/12/21	Gwyliau'r Nadolig
6/1/22 + 7/1/22	HMS (dim ysgol i ddisgyblion)

Talk the Talk

Yn ddiwedar, bu elusen Talk the Talk yn yr ysgol i weithio gyda holl ddisgyblion Ffes 3. Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer datblygu hyder a sgiliau llafar Saesneg y disgyblion. Doedd dim byd ond canmoliaeth gan y cwmni am ddisgyblion Ysgol Bro Idris; roeddent yn canmol agwedd ac ymddygiad y disgyblion a'u hymroddiad tuag at y dasg.

Cynllun Iaith

Rydym wedi bod yn rhoi sylw arbennig i bwysigrwydd hyder wrth siarad ac ymateb i eraill yn Gymraeg y tymor yma. Rhoddwyd cyflwyniad yn y neuadd a chynhaliwyd gweithdai i hybu hyn. Teimla'r dysgwyr bod hyn yn ychwanegu at eu sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Gweithgareddau Addysg Gorfforol Ffes 3

	Amser Cinio	Ar ôl Ysgol
Dydd Llun	Just Dance a Table Tennis	Rygbi Merched Bl 7-11
Dydd Mawrth	Pel Fasged	Badminton i bawb Pel droed Merched Bl 7-11 Rygbi Bechgyn Bl 7-9
Dydd Mercher	Gymnasteg	Pel rwyd Merched Bl 9-11 Rygbi Bechgyn Bl 9-11
Dydd Iau	Dodgeball	Pel rwyd Merched Bl 6-8 Pel dreod Bechgyn Bl 6-11
Dydd Gwener	Death Cricket	Pel droed pawb Bl 9-11

Digwyddiadau Gyrfa Cymru

Rondo
Bu cwmni Rondo yn yr ysgol yn ddiweddar i roi cyflwyniad i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 ar yrfaoedd yn y sector teledu. Yna, cynhaliwyd gweithdy sgriptio efo disgyblion Blwyddyn 8 gan roi sylw i leoliad, cymeriadau, plot a themâu. Roedd yn weithdy diddorol gyda'r holl ddisgyblion wedi mwynhau ac elwa o'r profiad.

Gweithdy carwsel
Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 y cyfle i ddatblygu sgiliau allweddol byd gwaith yn ddiweddar gyda gweithdy carwsel wedi ei drefnu gan Gyrfa Cymru. Daeth Heddlu Gogledd Cymru, Willmott Dixon a STEM Gogledd i'r ysgol i gynnal y gweithdai.

Screen Alliance
Daeth cwmni Screen Alliance i'r ysgol cyn yr hanner tymor i weithio gyda grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10 ar brosiect creadigol. Cafodd y disgyblion gyflwyniad i gychwyn, yna roedd briff i greu fideo ar y thema 'Y Llwybr'. Aeth y disgyblion ati i greu stori ac yna creu ffilm fer ar y thema gan roi sylw i dechnegau ffilmio penodol. Bydd y fideo yn rhan o gystadleuaeth 'Gogledd Creadigol' ac yn cael ei ddangos mewn seremoni gwobrwyo 'Ffilm Fer mewn Diwrnod'. Pob lwc!

Sesinau adolygu ar ôl ysgol	
Dydd Mercher	Clwb Celf (ar agor i bawb yn Ffes 3)
	Gwyddoniaeth (grwpiau targed Blwyddyn 11)
Dydd Iau	Daearyddiaeth (grwpiau targed Blwyddyn 11) Hanes (grwpiau targed Blwyddyn 11)
15 Tachwedd ymlaen	Bydd Carlam Cymru yn cynnal sesiynau byw ar gael i ddisgyblion TGAU am gyfnod o 4 wythnos. Mynediad am ddim i adolygu'r gwaith ar draws nifer o bynciau. Dyma'r linc: **https://e-sgol.cymru/cy/carlam-cymru-amserlen/**

Digwyddiadau Elusennol

Bore Coffi Macmillan: Diolch i bawb am gefnogi Bore Coffi Macmillan ym mis Medi. Casglwyd £1116.73.

19/11/21: Diwrnod Plant mewn Angen. Diwrnod di-wisg ysgol (£1), cacennau ar werth amser egwyl a chinio, gig cerddoriaeth yn y neuadd am 1:20 (20 ceiniog)

10/12/21: Diwrnod Siwmperi Nadolig. Gwisgo siwmper Nadolig (£1 tuag at Save the Children).

10/12/21: Cyfrannu i'r Banc Bwyd lleol.

Diolch i Gyngor Ysgol Ffes 3 am drefnu.

Pwyntiau Cyswllt Ffês 3 / Phase 3 Contacts

Mewn cyfnod mor anodd a digynsail, cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

Pennaeth Cynorthwyol Ffês 3
Miss Melanie Cooper
Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 3
Mrs Awel Davies